WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Dyddiad cyhoeddi: 12 Tachwedd 2018

Gofal Nyrsio a Ariennir

Ysgrifennaf mewn ymateb i'ch cais am wybodaeth, dyddiedig 16 Hydref 2018, pan wnaethoch ofyn am wybodaeth mewn perthynas â gofal nyrsio a ariennir.

Er hwylustod, rwyf wedi cynnwys eich cwestiwn isod ac wedi amlinellu ein hymateb cyfatebol.

Rwy'n deall eich bod wedi darparu arweiniad i'r byrddau iechyd mewn perthynas â rhyddhau'r taliad sy'n ddyledus i'w darparwyr fel ni. Oes modd i chi roi copi o'r canllaw hwnnw imi?

Rydym yn dal peth gwybodaeth sy'n cyfateb i'r disgrifiad hwn mewn cyfres o negeseuon e-bost gyda Bwrdd Iechyd Powys ac mae copi o'r rhain ynghlwm.

Rwyf wedi golygu peth o'r wybodaeth bersonol, gan gynnwys enw aelod o'r staff yn y bwrdd iechyd, o dan yr esemptiad yn adran 40(2) o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 gan fod datgeliadau o dan y Ddeddf yn cael eu rhyddhau i'r cyhoedd ac nid wyf yn ystyried y byddai rhyddhau'r wybodaeth hon yn rhywbeth y gallai'r unigolyn dan sylw ddisgwyl yn rhesymol. O ganlyniad, mae'r datgeliad yn debygol o fod yn annheg a byddai ei ddatgelu yn torri egwyddor y Ddeddf Diogelu Data o ran tegwch.

Os hoffech gwyno am y ffordd yr ymdriniwyd â'ch cais, ysgrifennwch at Martin Peters, Pennaeth yr Adran Gyfraith a Moeseg, drwy anfon neges e-bost at martin.peters@archwilio.cymru neu lythyr at 24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd, CF11 9LJ.

Rhaid i mi eich cyfeirio hefyd at adran 50 o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, sy'n caniatáu i chi wneud cais i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad ar a ymdriniwyd â'ch cais mewn ffordd sy'n cyd-fynd â'r Ddeddf ai peidio. Mae manylion cyswllt y Comisiynydd Gwybodaeth fel a ganlyn:

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire SK9 5AF

E-bost: casework@ico.gsi.gov.uk
Ffôn: 01625 545745
Ffacs: 01625 524510

Dylech nodi, fodd bynnag, y bydd y Comisiynydd Gwybodaeth fel arfer yn disgwyl eich bod wedi dilyn pob un o'n gweithdrefnau cwyno mewnol i'r eithaf cyn ymdrin â chais o'r fath. Mae rhagor o arweiniad ar gael ar wefan y Comisiynydd Gwybodaeth: https://ico.org.uk/

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, mae pob croeso i chi gysylltu â fi.

Yn gywir
Swyddog Gwybodaeth